



Stephen John Owen: ‘Gwastraff Da o Amser’

Wedi cyrraedd fy nhrigain oed ac wedi colli fy mam yn ddiweddar, mae fy mhersbectif ar fywyd wedi newid ychydig ynghyd a fy mhersbectif ar sut a beth rwy’n baentio. Mae’n fy nhrawo weithiau fod rhoi syniad neu ddelwedd sydd yn fy mhen ar bapur neu ganfas gwag a chael pobl i’w prynu yn eitha brawychus. Ond dyna’r llwybr a ddilynais o ddewis, felly does dim pwynt cwyno rwan.

Byddai bod yn un o naw o blant, tyfu fyny ar stad tai cyngor a diodda o ddyslecsia wedi dal rhai yn ôl, yn enwedig gan i mi gael fy nghysidro yn dipyn o dwpsyn trwy gydol fy nyddiau ysgol. O edrych yn ôl, fy unig ddihangfa o’r gwatwar di-ddiwedd hwnnw oedd pêl-droed a chelf. Fy mreuddwyd erioed oedd chwarae ar yr asgell dde i Lerpwl, ond yn anffodus, pan yn 13 oed, gwyddwn na fyddai hynny yn digwydd, felly roedd rhaid dilyn trywydd gwahanol. Dyma droi at fy angerdd arall – celf. Roeddwn wrth fy modd! Pan yn iau, byddwn yn tynnu llun ar bob dim y gallwn gael gafael ynddo – darnau o bapur, bocsus cardfwrdd, wal neu ddwy hyd yn oed. Yn byw ac yn bod yn y llyfrgell leol, o fewn dwy flynedd roeddwn yn sicr o fod wedi benthyc bob llyfr am gelf oedd ar y silffoedd, o Monet i Turner. Ceisiais eu hefelychu – roeddwn wedi fy swyno gyda’r paentiadau godidog oeddant yn greu. Wedyn, gwelais fy Lowry cyntaf, a meddyliais ff** mae o yn paentio yn union fel fi, a mae o yn

ff**** enwog! Meddyliais – ffwrdd a ni Steve, dwi’n mynd i fod yn gyfoethog ac yn enwog, dyddiau difyr!

O’r funud honno, yr oll oeddwn am wneud oedd mynd i goleg celf. Yn anffodus, doedd fy nhalent i baentio ddim yn ddigon. Roedd pawb yn dweud wrthai mod i’n gwastraffu f’amser, a phan yn 16 oed, gofynnwyd yn gwrtais imi adael yr ysgol a derbyniais yn llawen, gan nad oeddwn yn dysgu dim p’run bynnag. Dechreuais weithio fel prentis paentio ac addurno – roeddwn wrth fy modd a drwy gael arian yn fy mhoced, aeth fy uchelgais i fod y Lowry nesaf i’r gwellt am sbel... hynny ydi, 30 mlynedd yn ddiweddarach! Bum allan o waith am ychydig yn anffodus, ac i lenwi’r amser, dechreuais baentio, a chael fy swyno drachefn. Mae’r gweddill yn hanes, felly rwyf yn bendant y bu yn amser gwerth gwastraffu – dim mwy i’w ddweud.

A nawr, am y paentiadau yn yr arddangosfa hon. Cymysgfa o wahanol bethau; atgofion, llefydd a phethau rwyf wedi bod yn dyheu i’w paentio ers sbel; llefydd fel y Foryd a Salem. Rwyf wastad wedi caru y darlun o Sian Owen, oherwydd roedd gan fy nain brint ohono ar ei wal, a gwrthododd ddangos imi lle oedd gwyneb y diafol. Byddai wastad yn dweud unwaith byddwn yn ei weld, byddai yn difetha’r darlun i mi am byth. Fel arfer, roedd hi’n iawn. Mae darnau eraill yn yr arddangosfa yn adlewyrchu fy atgofion o ddynion oedd yn gweithio’n galed i gadw eu teuluoedd a hynny am gyflog bach iawn. Heddiw, gyda’r llywodraeth yn gwneud newidiadau na ellid eu proffwydo, bydd dynion f’oed i yn lwcus i weld pensiwn, ac mae’r achosion o ddynion yn cymryd eu bywydau o achos pwysau bywyd yn cynnyddu. Ond rhaid peidio cloi ar nodyn trist. Mwynhewch yr arddangosfa. Byddai fy mam wedi bod mor falch.

I Betti x

Stephen John Owen, Ionawr 2020

Mae Cynllun Casglu – cynllun prynu di-log Cyngor Celfyddydau Cymru - ar gael ar gyfer unrhyw bryniant o waith Stephen John Owen. Holwch am fanylion wrth y ddesg.

